Cofnodion Drafft – Cyfarfod Grŵp Ecosystem Glaswelltir a Rhostir – 2 Chwefror 2011
CCGC - Plas Penrhos, Bangor/dros y ffôn

| | | |
|---|---|---|
| Jan Sherry | JS | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| Alys Edwards (dros y ffôn) | AE | Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru |
| Stuart Smith | SS | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| Helen Buckingham | HB | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |

| | |
|---|---|
| Dave Lamacraft | RSPB |
| Trevor Dines | Plantlife |
| Carrie Rimes | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| Ivy Denham | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Richard Wistow | Rhondda Cynon Taf |
| Sion Brackenbury | Menter Tiroedd Comin Gŵyr |
| Nick a Kyra Somerfield | Undeb Amaethwyr Cymru |

**Eitem 1 ar yr Agenda – Grantiau Bioamrywiaeth**

Trafododd y grŵp y 3 prosiect a oedd wedi cael eu cyflwyno yn y rownd geisiadau ddiwethaf:

- Prosiect Pori Cwm Colhuw
- Prosiect Cefn Drum a'r Graig Fawr, Adeiladu ein Bioamrywiaeth
- Prosiect yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Bydd tri phrosiect posib hefyd yn cael eu cyflwyno ar gyfer yr ail rownd geisiadau. Y dyddiad cau yw dydd Mercher, 9 Chwefror. Y prosiectau hyn yw:

- Prosiect Pori Ynys Lawd gan yr RSPB
- Prosiect pori cynaliadwy Cyfeillion Gwarchodfa Natur Leol Moel Findeg
- Prosiect dolydd gwair yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol - Vould

| | |
|---|---|
| **CAM GWEITHREDU 1** | AE i anfon manylion am brosiectau posib i'r grŵp ehangach er mwyn cael sylwadau a chymeradwyaeth cyn 9 Chwefror. |
| **CAM GWEITHREDU 2** | HB i gymeradwyo'r ceisiadau terfynol ar ôl iddynt gael eu cwblhau. |

Nodwyd nad oedd y brys i gyflwyno prosiect wedi bod o unrhyw gymorth a chytunodd y grŵp y dylid annog partneriaid i ddechrau meddwl am brosiectau posib ar gyfer blwyddyn ariannol 2012/13 cyn gynted ag y bo modd. Bydd cyfarfod y Grŵp Ecosystem Glaswelltir a Rhostir ym mis Hydref 2011 yn canolbwyntio'n benodol ar drafod a chytuno ar brosiectau posib.

Cytunwyd hefyd y byddai'n werth cael synopsis o'r holl brosiectau a oedd wedi bod yn llwyddiannus â'u ceisiadau am grant, gan gynnwys y sefydliad a'r math o brosiect. Cytunodd AE i drafod hyn gyda Diana Reynolds.

Dywedodd JS fod angen ymwneud mwy â'r Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yng Nghymru a'u hannog i gyflwyno prosiectau posib ar gyfer y rownd gyllid nesaf. Dywedodd AE wrth y grŵp mai'r hyn y cytunwyd arno oedd y byddai pob grŵp ecosystem yn nodi 3 prif Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol i gyfarfod â hwy yn ystod y flwyddyn sydd i ddod a chytunwyd y byddai'r Grŵp Ecosystem Glaswelltir a Rhostir yn canolbwyntio ar Wynedd ac Eryri; Gwent a Cheredigion a Sir Gaerfyrddin.

Gwent – dechrau Mehefin
Ceredigion a Sir Gaerfyrddin – wythnos yn dechrau ar 18 Gorffennaf neu ym mis Medi
Gwynedd – aros am ddyddiadau posib

| | |
|---|---|
| **CAM GWEITHREDU 3** | AE i drafod y posibilrwydd o sefydlu cyfarfodydd ar wahân o bartneriaethau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn yr ardaloedd hyn. |
| **CAM GWEITHREDU 4** | AE i drafod y posibilrwydd o gynhyrchu synopsis o brosiectau gyda Diana. |

**Eitem 2 ar yr Agenda – Mapiau Blaenoriaeth**

Dywedodd AE wrth y grŵp ei bod wedi bod mewn cysylltiad â Len Wyatt (Llywodraeth Cynulliad Cymru) ynglŷn â chael data gan Asiantaeth y Cefnffyrdd ar Laswelltir a Rhostir blaenoriaeth er mwyn helpu i greu'r mapiau blaenoriaeth.

Mae Len wedi awgrymu bod angen i'r grŵp nodi ym mha fformat y mae angen yr wybodaeth, gan ystyried y canlynol;

1) Fformat ffeil GIS - MapInfo/ArcView ac ati
2) Y math o ddata sydd eu hangen - ardaloedd, mannau, polygonau
3) Lefel yr wybodaeth arolwg – cerdded drwodd /JNCC Cam 1/NVC ac ati.

Cytunwyd y byddai'r holl ddata sydd ar gael yn ddefnyddiol, ac os nad ydynt ar gael fel MapInfo, gellid trosi ffeiliau o ArcView. Data Cam 2 fyddai'r rhai mwyaf buddiol ond byddai pob data, beth bynnag ydynt, yn ddefnyddiol.

| | |
|---|---|
| **CAM GWEITHREDU 5** | AE i gysylltu â Len Wyatt a John Byrne a gofyn am gael gweld y data. |

Yna trafododd y grŵp gynnydd y gwaith mapiau blaenoriaeth. Pan fyddant wedi cael eu cwblhau bydd y mapiau'n cael eu dosbarthu i'r grŵp ehangach, CCGC, y Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau a Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol er mwyn cael rhagor o sylwadau.

**Glaswelltiroedd**

**Glaswelltir corsiog Ceredigion** – wedi'i gwblhau, yn barod i ymgynghori.

**Meysydd Glo De Cymru** – angen mireinio.

| | |
|---|---|
| **CAM GWEITHREDU 6** | SS i adolygu a mireinio ac anfon mapiau terfynol a briff y prosiect i AE i'w dosbarthu. |

**Pen-y-bont ar Ogwr** – Dywedodd SS nad yw'r ardal hon mor bwysig â meysydd glo de Cymru ar gyfer M24 a britheg y gors, ond ei bod yn dal yn ardal dda ar gyfer yr uchod ac yn enghraifft dda o gynefin mewn tirwedd rhannol drefol – cytunodd y grŵp i gadw'r prosiect hwn.

**Dolydd Gorlifdir**

**Maesyfed – gorlifdir ag ardaloedd gweddilliol** o MG4 yng Nghymru. Dywedodd SS nad oes gan yr ardal unrhyw gynefin bron ar hyn o bryd, felly byddai'r gwaith yn canolbwyntio ar adfer neu greu. Byddai Partneriaeth Dolydd Gorlifdir (Lloegr) yn ffynhonnell dda ar gyfer gwybodaeth.

| | |
|---|---|
| **CAM GWEITHREDU 7** | SS i archwilio'r mapiau a'r briff a'u hanfon at AE i gael eu dosbarthu. |

**Dolydd gorlifdir Wrecsam** – wedi'i gwblhau, yn barod i ymgynghori.

**Glaswelltir a Rhostir Calchaidd (gogledd Cymru) -** wedi'i gwblhau, yn barod i ymgynghori.

**Glaswelltir Niwtral**

Ar hyn o bryd mae'r briff ysgrifenedig yn cynnwys nifer o ardaloedd glaswelltir niwtral, y bydd angen eu gwahanu.

**Cwm Elan -** dolydd gwasgaredig uwchben cronfa ddŵr – gwaith adfer yn mynd rhagddo
**Meirionnydd -** ardal dda ar gyfer *Vicia orobus* a nifer o rywogaethau eraill adran 42
**Gwent -** ardal allweddol ar gyfer y gardwenynen Bombus Sylvarum
**Gogledd-ddwyrain sir Fynwy** (prosiect dolydd sir Fynwy)

Awgrymwyd y dylid nodi un ardal fawr ar gyfer prosiect, a fyddai'n cynnwys Gwent a sir Fynwy, er mwyn hybu cysylltedd rhwng y ddau safle hyn.

**Cynefinoedd Castellmartin -** yr ardal bwysicaf yn y Deyrnas Unedig ar gyfer y gardwenynen Bombus Sylvarum
**Llantrisant** – cynefin da ond dim llawer o rywogaethau adran 42

| | |
|---|---|
| **CAM GWEITHREDU 8** | SS i adolygu'r briff a phrosiectau ar wahân. |

**Rhostir**

**Penrhyn Llŷn -** safleoedd allweddol wedi'u cynnwys ar hyn o bryd, ond mae angen rhywfaint o waith yn ymwneud â chysylltedd. Briff ysgrifenedig wedi'i gwblhau – yn barod i ymgynghori.
**Ynys Môn** – Canolbwyntio ar wella'r safleoedd presennol (arfordir y gogledd).
**Arfordir a thraethau graeanog Ceredigion** – rhestr o rywogaethau adran 42 heb ei chwblhau eto – angen mewnbwn gan Trevor. Mae angen mwy o waith ar y briff ysgrifenedig.

| | |
|---|---|
| **CAM GWEITHREDU 9** | JS i barhau â'r briff ysgrifenedig a gwirio rhywogaethau gyda Trevor. |

**Arfordir Sir Benfro** – angen i Andrew Tuddman archwilio'r map a'r briff.

| | |
|---|---|
| **CAM GWEITHREDU 10** | JS i anfon map a briff at Helen, i'w hanfon ymlaen at Tudd i gael sylwadau. |
| **CAM GWEITHREDU 11** | JS i ddrafftio rhaglith ynglŷn â'r prosiect mapiau blaenoriaeth ac ymgynghori. |

**Preseli** – mapiau ond dim briff wedi'i ysgrifennu.

| | |
|---|---|
| **CAM GWEITHREDU 12** | JS i lunio'r drafft cyntaf a'i ddangos i Geraint er mwyn cael sylwadau. |

**Arfordir Gŵyr** – yn cynnwys y rhan fwyaf o'r arfordir calchfaen o ansawdd da – briff wedi'i ysgrifennu, yn barod i ymgynghori.

**Tir Comin Gŵyr** – tir comin gwastad a glaswelltir corsiog/rhostir gwlyb – briff wedi'i ysgrifennu, yn barod i ymgynghori.

Y dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r ddau fap a'r briffiau yw **dydd Gwener 11 Chwefror**. Dylid anfon unrhyw sylwadau at JS/HB/SS. Bydd y mapiau'n cael eu hanfon i'r Bartneriaeth Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol er mwyn cael sylwadau tua diwedd mis Mawrth.

| | |
|---|---|
| **CAM GWEITHREDU 13** | AE i'w dosbarthu i'r grŵp, gan ganiatáu wythnos ar gyfer sylwadau. |

| | |
|---|---|
| **CAM GWEITHREDU 14** | JS i ddosbarthu ar gyfer ymgynghoriad mewnol yn CCGC. Yn dilyn sylwadau gan y Grŵp Ecosystem Glaswelltir a Rhostir. |

Awgrymwyd y dylai prosiectau blaenoriaeth sy'n cael eu nodi gan y Grwpiau Ecosystem gael eu grwpio yn ôl ardaloedd Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol er mwyn i'r Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol allu nodi blaenoriaethau yn eu hardaloedd yn rhwydd. Mae hyn yn codi'r cwestiwn a fydd pob Grŵp Ecosystem wedi cwblhau eu hymarfer mapiau blaenoriaeth yn gynnar yn 2011. Cytunodd JS ac AE i godi mater mwy o gydgysylltu â Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yng nghyfarfod nesaf Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

| | |
|---|---|
| **CAM GWEITHREDU 15** | JS ac AE i godi'r mater yng nghyfarfod Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. |

Dyddiad y cyfarfod nesaf

Y cyfarfod nesaf i'w gynnal ddiwedd mis Mai, ac i gynnwys ymweliad maes ag un o'r prosiectau blaenoriaeth a nodwyd drwy'r gwaith mapio.

| | |
|---|---|
| **CAM GWEITHREDU 16** | HB i e-bostio'r grŵp. |
| **CAM GWEITHREDU 17** | AE i holi ynglŷn â dyddiadau/lleoliad cyfarfod yn niwedd mis Mai. |